

# Asesiad Dichonoldeb ar gyfer Atgyfnerthu Niferoedd Bele'r Coed yn Lloegr a Chymru

---

## CRYNODEB

Gallai trawsleoliad llwyddiannus o felaod coed i gynefinoedd addas lle roeddent unwaith yn bodoli - un ai'n hanesyddol neu'n fwy diweddar - fod yn gam sylweddol ymlaen o ran gwella statws cadwraethol ac amrywiaeth genetegol y rhywogaeth hon yn Lloegr a Chymru. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig asesiad cychwynol o ddichonoldeb ymgymryd â gwaith trawsleoli i atgyfnerthu poblogaethau sydd eisoes yn bodoli ac sydd wedi methu adfer yn naturiol.

Roedd bele'r coed, *Martes martes*, unwaith yn eang ei ddisbarthiad trwy Brydain. Gwelwyd cwmp anferth yn niferoedd y rhywogaeth hon yn ystod y 18fed a'r 19egG oherwydd diflaniad cynefinoedd, ynghyd â ffactorau eraill fel y gwaith trapio a rheoli ysglyfaethwyr a oedd yn gysylltiedig â'r cynnydd mewn saethu anifeiliaid helgig (gêm) ar yr adeg honno. Erbyn dechrau'r ganrif ddiwethaf roedd bele'r coed ond i'w ganfod ym mhellafoedd gogledd orllewin yr Alban, gyda phoblogaethau bychain ac ynysedig iawn mewn ambell ran o'r ucheldir yng ngogledd Lloegr a Chymru. Yn yr Alban mae poblogaethau bellach yn adfer yn llwyddiannus ac yn lledu nôl i'w hen ardaloedd dosbarthiad, ond nid yw hyn yn wir mewn rhannau eraill o Brydain. Mae arsylwadau ac ambell gofnod pendant achlysurol yn awgrymu bod ychydig o anifeiliaid yn dal i fod yn bresennol mewn rhai rhannau o dde Prydain, ond mewn niferoedd mor isel nes bod hyfywedd y poblogaethau yn fregus iawn.

Defnyddiwyd dull modelu tirwedd i ragfynegi addasrwydd cynefinoedd ar gyfer bele'r coed ar draws Cymru a Lloegr, gan ddefnyddio sgwariau 10km fel y raddfa ddadansoddi. Fe wnaeth y model adnabod nifer o ardaloedd a oedd yn addas iawn ar gyfer bele'r coed; roedd y rhain yng ngogledd Lloegr (Northumberland, Ardal y Llynnoedd a'r Pennines), gyda rhai ardaloedd wedi clystyru yn ne-orllewin Lloegr ac o gwmpas Fforest y Ddena. Yn gyfrannol, cafodd mwy o ardal addas iawn ei rhagfynegi yng Nghymru, o Eryri yn y gogledd i lawr drwy'r Mynyddoedd Cambriaidd ac yng nghwm Nedd yn y de.

Gyda'r wybodaeth o'r gwaith modelu cynefin, ynghyd â'r bas data sydd gennym o arsylwadau o felaod coed ers 1996 cafodd chwe rhanbarth atgyfnerthu posib (PRRs) eu hadnabod. Mae'r rhain yn ardaloedd lle cafodd lefel uchel o addasrwydd cynefin ei ragfynegi drwy'r gwaith modelu a lle mae adroddiadau o arsylwadau diweddar, ynghyd â thystiolaeth arall, yn awgrymu bod belod coed yn dal i fod yn bresennol mewn niferoedd isel iawn. Ar gyfer bob un o'r PRRs hyn, gwnaed gwaith pen-desg cychwynol i ddadansoddi newidion sy'n debygol o effeithio ar sefydlu a lledaeniad belod coed. Mae ffyrdd yn debygol o fod yn achos marwolaethau a fyddai'n effeithio ar hyfywedd poblogaethau belod coed sydd newydd gael eu hatgyfnerthu. Defnyddiwyd cyfanswm hyd ffyrdd ym mhob PRR a'r ganran o'r rheiny o fewn coedwigoedd, ynghyd â phwysau traffig blynyddol, i amcangyfrif pa mor debygol, yn gymharol, y byddai hi i farwolaethau belod gael eu hachosi gan ddamweiniau gyda cherbydau ar ffyrdd. Byddai hyd yn oed cyfradd isel o farwolaethau ychwanegol yn cynyddu'r perygl o ddifodiant ac yn peryglu llwyddiant sefydlu poblogaeth sydd newydd gael eu hatgyfnerthu. Felly dylai trawsleoli ddigwydd yn gyntaf mewn PRRs sydd â blociau o goetir sy'n ddigon mawr i gynnal niferoedd cymharol uchel o felaod, heb fod yna debygolrwydd uchel o farwolaeth ychwanegol o achos ffyrdd.

Mae'r canfyddiad y byddai adferiad ym mhoblogaeth ysglyfaethwr brodorol yn cael effaith negyddol ar rywogaethau eraill sy'n ysglyfaeth i hwnnw yn bryder mawr i rai budd-ddeiliaid. Mae asesiad risg trwyadl,



sy'n gwerthuso rôl ecolegol creaduriaid wedi eu trawsleoli yn eu hamgylchedd newydd, a'r effeithiau posib ar rywogaethau eraill sydd eisoes yn bresennol yn yr ardaloedd gollwng yn elfen allweddol o'r astudiaeth dichonoldeb. Aseswyd y gorgyffwrdd rhwng PRRs a dosbarthiad bridio'r adar prin hynny yn y DU a allai gael eu hysglyfaethu gan felaod coed a thrafodwyd y goblygiadau, ynghyd â bywyd gwyllt arall a allai gael eu heffeithio gan gynydd mewn niferoedd belaoed coed.

Elfen allweddol o'r cyfnod sefydlu dichonoldeb mewn unrhyw gynllun trawsleoli cadwraethol yw asesu agwedd y cyhoedd tuag at y rhywogaeth dan sylw. Cynhaliwyd arolwg o farn y cyhoedd er mwyn asesu agweddau'r cyhoedd tuag at y posibilrwydd o ail-stocio rhannau o Gymru gyda belaoed coed. Cafwyd 617 o ymatebion y gellid eu defnyddio, ac o'r rhain roedd 87.3% yn cefnogi ail-stocio belaoed coed yng Nghymru. Y rhai a oedd yn gweithio ym meysydd ffermio, cadw creaduriaid helgig a rheolaeth ystâd oedd yn fwyaf tebygol o wrthwynebu ail-stocio, tra bod y rhai a oedd yn gweithio mewn meysydd hamdden, twristiaeth a chadwraeth bywyd gwyllt yn fwy tebygol o fod yn gefnogol. Y prif resymau a roddwyd dros gefnogi ailstocio belaoed coed oedd statws brodorol, canfyddiad y byddai effaith bositif ar fioamrywiaeth a'r cyfraniad y byddai'n gwneud at greu amgylchedd cytbwys. Y prif resymau dros wrthwynebu oedd hela bywyd gwyllt, angen blaenoriaethu'r boblogaeth gysefin a diffyg cynefin addas/ gwybodaeth am statws cyfredol y boblogaeth.

Aseswyd cynlluniau i atgyfnerthu poblogaethau belaoed coed yn Lloegr a Chymru yn erbyn meini prawf ar gyfer trawsleoliadau cadwraeth a gyhoeddwyd gan yr International Union for Conservation of Nature (IUCN). Mae'r gwaith sydd wedi ei gynnal hyd yn hyn yn cwrdd â'r meini prawf yn atodiadau un i chwech. Bydd argymhellion manwl ar gyfer gollwng belaoed a gweithredu cynlluniau yn cael eu cynhyrchu a'u gwerthuso yn erbyn meini prawf yn Atodiad 7 o ganllawiau IUCN yn ystod ail ran yr astudiaeth dichonoldeb (i'w gwblhau 2015).

Mae chwech o ranbarthau atgyfnerthu posib wedi cael eu hadnabod yng Nghymru a Lloegr sy'n cynnwys digon o ardaloedd gyda lefel uchel o gynefin addas i gynnal poblogaethau hyfyw o felaod coed. Bydd arolygon maes yn awr yn cael ei wneud er mwyn dylanwadu ar y penderfyniad terfynol ynglŷn â lleoliad y safleoedd gollwng gorau. Bydd gwaith ymgynghori manwl gyda budd-ddeiliaid, y cyhoedd, y llywodraeth a'i asiantaethau lleol, a mudiadau anllywodraethol eraill yn digwydd ym mhob rhanbarth atgyfnerthu posib cyn y bydd cynlluniau ar gyfer trawsleoli belaoed coed yn cael eu cwblhau. Bydd y wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn ystod y broses ymgynghori yn cael ei defnyddio i ddewis safleoedd gollwng sydd â chefnogaeth leol llwyr.